HSC(6) 32-23 PTN 7

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

27 Tachwedd 2023

Annwyl Russell,

Sefydlwyd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) i ddarparu cyngor annibynnol, arbenigol a diduedd ynghylch a yw manteision meddyginiaethau newydd yn cyd-fynd yn ddigonol â'u costau i fod yn ddefnydd costeffeithiol o adnoddau'r GIG.

Rydym yn dibynnu ar gyngor arbenigol NICE fel corff rhyngwladol o fri ym maes arfarnu technoleg iechyd. Mae'r holl feddyginiaethau sydd wedi cael eu hargymell gan NICE neu Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru (AWMSG) ar gael fel mater o drefn yng Nghymru lle bo hynny'n briodol yn glinigol.

Mae rôl annibynnol NICE ac AWMSG yn golygu na fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn ei brosesau arfarnu na chyflwyno sylwadau ar ei ymgynghoriadau.

Mae'r triniaethau ar gyfer ffeibrosis systig sef Kaftrio, Symkevi, Orkambi a Kalydeco i gyd ar gael fel mater o drefn yng Nghymru ar gyfer eu holl arwyddion trwyddedig yn unol â'r cytundeb mynediad masnachol a wnaed rhwng Llywodraeth Cymru a'r gwneuthurwr, Vertex Pharmaceuticals yn 2020. Un o amodau'r cytundeb hwnnw oedd y byddai Vertex yn cymryd rhan mewn arfarniad o Kaftrio, Symkevi ac Orkambi er mwyn penderfynu ar effeithiolrwydd y triniaethau hyn a sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn deg â'r pris sy'n cael ei dalu gan y GIG.

Ar 3 Tachwedd, cyhoeddodd NICE ganllawiau drafft ar y defnydd o Kaftrio, Symkevi ac Orkambi lle nad argymhellodd ddefnyddio'r triniaethau hyn oherwydd bod "y pris a gynigir gan y gwneuthurwr yn sylweddol uwch na'r amrediad sy'n ddefnydd derbyniol o adnoddau'r GIG ym marn NICE".

Mae lle i Vertex ystyried canfyddiadau NICE ac mae cyfle iddo gynnig pris sy'n cynnig gwell gwerth am arian i'r GIG.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd NICE yn diweddaru ei ganllawiau yn dilyn yr ymgynghoriad, a ddaw i ben yn ddiweddarach y mis hwn. Ni fydd penderfyniad gan NICE i beidio ag argymell defnyddio'r triniaethau hyn yn effeithio ar unrhyw un sy'n eu derbyn ar hyn o bryd nac unrhyw un sy'n dechrau triniaeth cyn argymhelliad terfynol NICE.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services